

## Cydymffurfiaeth Cyngor Sir Ceredigion gyda'r Safonau Iaith Gymraeg

### Cynhyrchwyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Mae'r ddogfen hon wedi ei chreu er mwyn cydymffurfio â'r safonau canlynol y mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion i gydymffurfio â nhw - 157, 163, 169 a 159, 165, 171. Bydd y ddogfen hon yn nodi sut bydd y Cyngor yn bwriadu cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi a safonau gweithredu, sydd wedi'i osod gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi ein trefniadau ar gyfer goruchwylio, hyrwyddo a hwyluso ein gwasanaethau cyfrwng Gymraeg.

#### **Hysbyseb Cydymffurfio (Safonau 155,161,167,173,175)**

Mae Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Sir Ceredigion (sydd yn manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth, Llundio Polisi, Gweithredu, a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion yn ogystal ar Cardinet, sef mewnwyd staff Cyngor Sir Ceredigion. Gellir cael copi o'r Safonau (Hysbysiad Cydymffurfio) sydd wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion, ac y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yma:

<http://www.ceredigion.gov.uk/media/5280/safonau-iaith-gymraeg-cyngor-sir-ceredigion-hysbysiad-cydymffurfio.pdf>

#### **Goruchwyliaeth Safonau'r Gymraeg (Safonau 157,163 a 169)**

Rydym yn sicrhau goruchwyliaeth o'r Safonau y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio a hwy yn y ffyrdd canlynol:

Mae cyfrifoldeb strategol am yr Iaith Gymraeg gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaeth Democrataidd; yr Aelod Arweiniol Gwleidyddol yw Arweinydd y Cyngor, sef Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn. Mae'r gwaith o ymdrin yn weithredol a materion y Gymraeg yn gyfrifoldeb y Swyddog Polisi Iaith Gymraeg. Bydd y Prif Weithredwr, ynghyd â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Rheolwyr Grŵp yn gyfrifol am sicrhau bod pob Swyddog o fewn y Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae pwyllgorau wedi'u sefydlu er mwyn llywio a monitro ymdrechion i wella defnydd o'r Gymraeg, ac i oruchwylio cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg fel a ganlyn:-

- Grŵp Cymraeg y Gweithle

Mae Grŵp Cymraeg y Gweithle wedi ei sefydlu er mwyn goruchwylio'r gwaith o weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae'r Grŵp yn cael ei gadeirio gan y Swyddog Arweinydd Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys Swyddogion sy'n cynrychioli meysydd gwasanaeth y Cyngor. Mae'r Grŵp yn trafod ac yn archwilio dulliau er mwyn medru cyflawni gofynion y Safonau yn effeithiol, yn ogystal â derbyn adroddiadau cynnydd ar weithredu rhai o'r Safonau eraill. Cyflwynir adroddiadau lle bo angen penderfyniad polisi at sylw Grŵp Arweiniol Corfforaethol, cyn derbyn cymeradwyaeth terfynol drwy broses Ddemocrataidd y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cyfrannu at Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg. Bydd yr Adroddiad Blynyddol drafft, yn mynd trwy gyfnod ymgynghori, yna caiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith, ac yna derbyn cymeradwyaeth terfynol y Cabinet, cyn cael ei gyhoeddi ar y 30 Mehefin yn flynyddol.

- Pwyllgor Iaith

Mae Pwyllgor Iaith y Cyngor yn craffu ar faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio a Safonau'r Gymraeg. Mae gan y Pwyllgor hwn bwerau i allu cyflwyno argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn. Arweinydd y Cyngor sy'n Cadeirio'r Pwyllgor, ac mae'n cynnwys aelodau etholedig trawsbleidiol. Gwahoddir Swyddogion i gynrychioli gwasanaethau'r Cyngor i gyflwyno adroddiadau ar weithredu'r Safonau pan yn briodol neu'n amserol i wneud hynny.

### **Gweithdrefn Gwyno (Safonau 156,162 a 168)**

Mae Llyfryn Gwybodaeth am Bryderon a Chwynion '*Sut i Wneud Cwyn*': Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol y Cyngor wedi ei ddiwygio i gynnwys y drefn o ran sut bydd y Cyngor yn delio a chwynion ynghylch cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r canllaw hwn wedi ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor. At hyn, mae doler ar dudalen Cymraeg, gwefan y Cyngor, yn rhoi gwybod i aelodau'r cyhoedd sut gallant wneud cynw ynghylch cydymffurfiaeth gyda'r Safonau neu fethiant i dderbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn medru cyflwyno eu pryderon yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unol â dewis iaith. Gellid cyflwyno Cwynion ynghylch lefel neu safon y ddarpariaeth o wasanaethau'r Cyngor a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, neu o ran gweithredu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r canllaw yn nodi, os bydd yr achwynydd yn anfodlon â'r ymateb gan y Cyngor, gall yr achwynydd ofyn am gyngor pellach gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn cofnodi ac yn monitro pob cynw a ddaw i law, ac yn ceisio dysgu gwersi wrth baratoi datrysiadau. Fel rhan o drefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor, caiff Swyddog Polisi Iaith Gymraeg wybod ynghylch pob cynw sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg; a hynny er mwyn cynghori swyddogion ac ystyried camau gweithredu pellach.

Yn rhan o raglen *hyfforddiant cwynion* y Cyngor, rhoddir gwybod i swyddogion ynghylch y drefn i ddellio gyda chwynion ynghylch materion iaith Gymraeg.

### **Hybu a Hwyluso Gwasanaethau Cyfrwng Cymraeg (Safonau 157 a 163)**

Caiff yr holl wasanaethu rydym yn eu cynnig yn unol â'r Safonau hyn eu hyrwyddo drwy gyfryngau cymdeithasol, cyhoeddusrwydd, a gwefan y Cyngor. Rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd i *Ddatganiad Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor*, ac fe fyddwn yn hyrwyddo ein hymgych '*Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysyllu gyda'r Cyngor*'. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth staff i hwyluso gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ac yn mynd ati yn rhagweithiol i annog defnydd o'r gwasanaethau hyn.

## Byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth o'r Safonau y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio a hwy yn y ffyrdd canlynol:

### Cydymffurfiaeth â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-87)

- Er mwyn sicrhau fod y staff i gyd yn ymwybodol o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, rydym wedi bod yn dosbarthu canllaw sy'n rhoi *Arweiniad ar Ddarparu Gwasanaethau Cymraeg*
- Mae canllawiau Gohebiaeth Ddwieithog, ac anfon negeseuon e-byst dwyieithog wedi'u cyhoeddi ar dudalen fewnrwyd y Cyngor, er mwyn cynorthwyo aelodau staff i gydymffurfio gyda'r gofynion gohebu.
- Mae papur pennawd corfforaethol yn ogystal ag e-byst allanol y Cyngor yn cynnwys y datganiad bod croeso defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor.
- Mae canllawiau Ateb y Ffôn wedi'u cyhoeddi ar dudalen fewnrwyd y Cyngor, er mwyn cynorthwyo aelodau staff i gydymffurfio gyda'r gofynion.
- Rydym wedi rhoi neges wedi'i recordio ar y llinell ffôn, Gwasanaeth Clic (y brif ganolfan gyswllt), yn rhoi gwybod bod yna linell Gymraeg ar gael.
- Rydym wedi sicrhau bod staff yn cynnig trosglwyddo galwad i siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor (os nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg).
- Er mwyn ei gwneud hi'n haws adnabod siaradwyr Cymraeg yn gyflym, mae'r cyfeirlyfr ffôn electronig yn arddangos bathodynau iaith gwaith gyferbyn â Swyddogion sy'n medru cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Rydym wedi darparu geiriad er mwyn annog gwasanaethau i holi dewis iaith o'r cyswllt cyntaf. Os bydd yr alwad gyntaf yn cael ei chyflwyno drwy Wasanaeth Clic (y brif ganolfan gyswllt), mae'r gwasanaeth hwnnw yn cofnodi dewis iaith.
- Mae canllawiau Cynnal Cyfarfodydd wedi'u cyhoeddi ar dudalen fewnrwyd y Cyngor, er mwyn cynorthwyo aelodau staff ac aelodau etholedig i gydymffurfio gyda'r gofynion. Mae Cadeiryddion yr holl bwyllgorau cyhoeddus yn cael eu hannog i agor a chloi'r cyfarfod yn y ddwy iaith, ac i groesawu cyfraniadau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i bob cyfarfod cyhoeddus.
- Disgwylir bod Swyddogion yn gwneud trefniadau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn digwyddiadau cyhoeddus. Mae canllawiau Comisiynydd y Gymraeg wedi cael eu cylchredeg drwy'r bwletin corfforaethol: *'Cynnwys y Gymraeg yn eich digwyddiad: sut i fanteisio ar y Gymraeg wrth drefnu digwyddiadau'*
- Bydd yr holl ddogfennau a ffurflenni a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog. Os bydd angen cyhoeddi dogfen neu ffurflen Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddwn yn gosod ymwadiad ar y fersiwn Saesneg: *"Mae'r ddogfen / ffurflen hon ar gael yn Gymraeg"*.
- Mae Gwefan y Cyngor yn ddwyieithog, a gellir symud o un iaith i'r llall yn hwylus, drwy glicio ar y botwm iaith ar dop y dudalen, ar ochr dde'r sgrin.
- Mae gan y Cyngor gyfrif Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer Facebook a Twitter, byddwn yn codi ymwybyddiaeth bod ffrwd Cymraeg ar gael.
- Byddwn yn sicrhau bod pob peiriant hunanwasanaeth sy'n eiddo i'r Cyngor, yn gweithio'n ddwyieithog.
- Polisi y Cyngor yw bod holl arwyddion a hysbysiadau'r Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn cael ei gosod mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf

- Mae arwyddion yn cael eu gosod mewn prif dderbynfeydd y Cyngor i ddatgan bod croeso i bobl gyfathrebu gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg, boed hynny yn wasanaethau wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy ohebiaeth neu wasanaethau ar-lein. Bydd gweithwyr derbynfeydd sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo cortynnau gwddf neu fathodynau i gyfleu hynny
- Mae'r polisi grantiau wedi'i ddiwygio er mwyn medru cydymffurfio gyda gofynion y safonau. Bydd modd cyflwyno cais am grant yn Gymraeg neu'n Saesneg, a bydd pob ffurflen grant a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ymateb yn Gymraeg.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r gwasanaeth caffael; bydd unrhyw wahoddiad i dendro (hysbysiad contract) yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, ac mae'r ymwadiad canlynol wedi'i osod: "*Mae'r Cyngor yn croesawu cyflwyno tendrau yn Gymraeg neu Saesneg, ac ni fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.*" □
- Gofynnir i aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud cais am gyrsiau drwy Wasanaeth Dysgu Bro, beth yw eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg), er mwyn asesu'r angen i wersi gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen lefel trothwy penodol er mwyn medru darparu cwrs.

### **Cydymffurfiaeth â Safonau Llunio Polisi (Safon 88-98)**

- Pan fydd polisi newydd yn cael ei lunio neu ei ddiwygio, byddwn yn sicrhau bod yr holl reolwyr yn gwybod am yr angen i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) (i) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a (ii) sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy sicrhau bod Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gwblhau. Mae'r asesiad effaith integredig wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio i gynnwys adran ar asesu effaith ar yr iaith Gymraeg
- Os caiff ymchwil ei gomisiynu a fwriedir i gynorthwyo gyda llunio polisiau, byddwn yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellir gwneud y penderfyniad polisi er mwyn sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.
- Mae arweiniad ar ymgynghori ar gael ar y fewnwyd. Mae'r drefn yn nodi bod rhaid i unrhyw broses ymgynghori ar benderfyniad polisi, gynnig y cyfle i bobl wneud sylwadau ar effaith y polisi hwnnw (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) (i) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a (ii) sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mae'r polisi dyfarnu grantiau cymunedol wedi ei ddiwygio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'r polisi ar gael ar wefan y Cyngor

### **Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredu (Safon 98-144)**

- Mae Swyddogion wedi cael gwybod am y Safonau newydd a hawliau'r gweithwyr drwy eitemau ar y bwletin newyddion corfforaethol
- Mae'r Cyngor wedi datblygu Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac mae'r ddogfen hon wedi cael ei chyhoeddi ar Cardinet (mewnwyd y Cyngor).
- Bydd y Cyngor yn darparu contractau cyflogaeth yn ddwyieithog

- Mae'r Cyngor wedi datblygu porth gwybodaeth Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ceredigion – sef Ceri Net. Ynndo ceir arweiniad ar amrywiol faterion sy'n ymwneud â gweithio i'r Cyngor, gan gynnwys llawlyfr staff a holl bolisiâu'r gweithlu – sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd yr holl ohebiaeth gyffredinol sy'n ymwneud â chyflogaeth staff yn cael ei ddanfon yn ddwyieithog. Bydd gohebiaeth bersonol yn cael ei chyfeirio yn unol â dewis iaith y gweithiwr. Mae ffurflen ar CeriNet sy'n gofyn i weithwyr nodi eu dewis iaith.
- Mae'r Polisiâu a nodir yn Safonau 105-111 ar gael i weithwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Mae Gweithdrefn Gwyno y Cyngor yn nodi y gall gweithwyr wneud cwyn yn y Gymraeg, ac mae ganddynt yr hawl i ymateb i gŵyn a wnaed amdanynt yn Gymraeg. Mae'r gweithwyr wedi cael gwybod am yr hawl honno.
- Bydd gweithwyr yn cael cynnig cyfle i gynnal unrhyw gyfarfodydd ynglŷn â chwynion a wneir yn eu herbyn yn y Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio offer cyfieithu ar y pryd) Bydd unrhyw gofnod o benderfyniad sy'n ymwneud â chwyn yn erbyn gweithiwr yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg, os bydd y gweithiwr wedi dewis cyfathrebu yn Gymraeg
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer gwirio a sillafu a gramadeg (pecyn Cysgliad) wedi'i osod ar bob cyfrifiadur, ac rydym wedi rhoi gwybod i staff drwy'r Bwletin Corfforaethol bod y pecynnau ar gael. Mae Cyngor ar sut i newid gosodiadau iaith (rhyngwyneb Cymraeg) ar gael gan y gwasanaeth TG.
- Mae gwaith yn cael ei gyflawni i sicrhau bod mewnruwyd y Cyngor yn gwbl ddwyieithog.
- Rydym wedi datblygu tudalen 'Iaith ar Waith' ar fewnruwyd y Cyngor sy'n darparu deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo ein gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr trwy hunanasesiad, gan ddefnyddio fframwaith lefelau iaith ALTE. Bydd yn ofynnol bod rheolwyr yn adolygu sgiliau iaith fel rhan o'r asesiad perfformiad blynyddol, ac yn cofnodi unrhyw gynnydd ar system Ceri. Bydd y gwasanaeth Adnoddau Dynol yn gyfrifol am gofnodi sgiliau iaith gweithwyr sy'n cael eu penodi i swyddi newydd neu wag.
- Bydd y Cyngor yn cynyddu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i weithwyr fedru mynychu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.
- Bydd y Cyngor yn cynnig cyfleoedd eang i weithwyr ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau iaith yn ystod oriau gwaith.
- Bydd sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg yn cael eu cynnig i holl aelodau staff. At hyn, bydd y Cyngor yn datblygu rhaglen e-ddysgu, a fydd yn rhaglen gorfodol ar gyfer gweithwyr newydd
- Dosbarthwyd cyfarwyddiadau ar sut i osod logo iaith gwaith ar lofnodion e-byst, sut i osod cyfeiriad dwyieithog ynghyd ag awgrymiadau ar osod negeseuon allan o'r swyddfa ddwyieithog i'r staff.
- Mae proses yn ei le i asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag
- Bydd ffurflenni cais ar gael yn ddwyieithog drwy'r system electronig e-recriwtio Ceri, ac fe fydd ymgeisydd yn gallu gwneud cais am unrhyw swydd yn ei ddewis iaith. Bydd llythyrau cynnig i gyfweliad yn rhoi lle i unigolion nodi os ydynt yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyfweliad.
- Polisi y Cyngor yw sicrhau bod pob arwydd yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn cael ei osod mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf, gan gynnwys arwyddion dros dro.
- Bydd cyhoeddiadau yn cael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg, bydd y neges yn Gymraeg yn cael ei gyhoeddi gyntaf.

## Cydymffurfiaeth â Safonau Cadw Cofnodion (Safon 147-154)

Byddwn yn cadw cofnodion o:

- nifer y cwynion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a chydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg
- nifer yr asesiadau effaith integredig sy'n cael eu cyflwyno, sy'n cynnwys asesiad effaith polisïau newydd ar yr iaith Gymraeg
- nifer a % y gweithwyr sy'n meddu ar sgiliau iaith yn flynyddol.
- (i) nifer yr aelod o staff wnaeth fynychu cyrsiau hyfforddiant (yn unol â Safon 128) a (ii) os oedd fersiwn Gymraeg o'r cwrs yn cael ei gynnig yn unol â safon 128, % y nifer o staff wnaeth fynychu'r cwrs hwnnw
- nifer y gweithwyr sy'n mynychu cyrsiau i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg
- nifer y gweithwyr sy'n cwblhau rhaglen hyfforddi ymwybyddiaeth iaith.
- nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda lefelau ALTE.

Byddwn yn cyflwyno adroddiadau cynnydd chwarterol i Bwyllgor Iaith y Cyngor, ac yn cyhoeddi Adroddiad Blyneddol Safonau'r Gymraeg ar wefan y Cyngor bob blwyddyn.

-----